Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd

**Llannerchymedd**
**Ynys Môn**
**LL71 8DP**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 139 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 105 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 18 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 13.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 36.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 67.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/09/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae ethos hapus a chyfeillgar yn bodoli yn Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd. Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gartrefol a chynhwysol yr ysgol. Mae'r weledigaeth o osod 'Llwybr Llwyddiant Llannerch-y-medd' yn adlewyrchu ethos yr ysgol i annog disgyblion i fyfyrio ar eu gwerthoedd ac i weithredu arnynt. Mae pawb yn cael eu parchu ac maent yn ofalgar iawn o'i gilydd a'r gymuned. O ganlyniad, mae agwedd y disgyblion at eu dysgu yn gadarn ac mae eu hymddygiad yn rhagorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau annibynnol y disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Mae gan staff berthynas waith arbennig â'r disgyblion. Maent yn sicrhau rhediad addas i'r gwersi ac yn darparu profiadau dysgu sy'n ysgogol. Fodd bynnag, anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwriadus. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyraeddiadau blaenorol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn gadarn. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn llwyddiannus. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd i hyrwyddo medrau annibynnol disgyblion

A2 Cysoni adborth athrawon i gefnogi disgyblion i wella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau a gwybodaeth sy'n debyg i'r hyn a ddisgwylir am eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn bwrpasol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn awyddus i sgwrsio â'u hathrawon a gydag ymwelwyr. Maent yn siarad yn frwdfrydig am beth maent yn ei wneud, er enghraifft pan fydd disgyblion y dosbarth derbyn yn siarad yn frwdfrydig am sut i gynnal tân ar gyfer cadw'r Gryffalo yn gynnes yn y goedwig. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn sgwrsio'n ddeallus a'u cyfoedion ac oedolion, er enghraifft wrth ddadansoddi a ddehongli gwaith yr artist Josie Russel yn fanwl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn gwrando'n ofalus ar gwestiynau cyn eu hateb yn huawdl, gan gynnwys dadlau am effaith tai Haf ac ail gartrefi ar y gymuned.

Mae bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen yn llwyddiannus, gan ddod i adnabod sain a ffurf llythrennau o oedran ifanc. Maent yn defnyddio dulliau addas i roi cynnig ar ddarllen geiriau anghyfarwydd. Maent yn dechrau cymhwyso medrau darllen mewn cyd-destunau gwahanol. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn dod yn ddarllenwyr medrus ac yn darllen â mynegiant. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, gall llawer frasddarllen yn effeithiol, ac mae ganddynt fedrau amgyffred da. Er enghraifft, ar ôl ymchwilio i Batagonia ar y wê, maent yn dehongli gwybodaeth yn glir i wneud cyflwyniad syml i rhannu â disgyblion iau.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn dda. Mae bron bob un yn cychwyn arbrofi wrth wneud marciau, ac mae llawer yn dechrau ysgrifennu i bwrpasau gwahanol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu'n gadarn erbyn diwedd Blwyddyn 3. Maent yn ysgrifennu'n gynyddol gywir, gan ddefnyddio atalnodi a berfau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ysgrifennu portread am Barti Ddu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn adnabod nodweddion ffurfiau ysgrifennu gwahanol ac yn eu hefelychu yn eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth ysgrifennu dyddiadur y Porthmon drwy ystyried gofynion y darllenwr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen sy'n ddarllenadwy, gyda llawer yn cyflwyno eu gwaith yn daclus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod rhifau a siapiau 3D syml ac yn datblygu dealltwriaeth o fesur yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol yn eu gweithgareddau y tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er enghraifft wrth fesur yn fanwl gywir anghenfil dychmygol maent wedi'i greu o does. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer yn gwneud defnydd addas o'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod fuddiol o fedrau digidol sy'n eu helpu i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio offer animeiddio i greu fideo er mwyn addysgu'r disgyblion sut i gadw'n iach. Mae disgyblion hŷn yn ymchwilio a dadansoddi data ar boblogaeth pentrefi Ynys Môn yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft drwy efelychu arddull arlunwyr enwog a lleol yn llwyddiannus yn eu gwaith eu hunain. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn fedrus i gynhyrchu gwaith celf drawiadol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu medrau corfforol cadarn gan fanteisio'n llawn ar amrywiaeth o gyfleoedd i gadw'n heini yn ystod gwersi neu amseroedd hamdden. Mae bron bob disgybl yn gwneud defnydd effeithiol o'r maes chwarae pob tywydd i ddatblygu eu medrau corfforol yn effeithiol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles disgyblion yn gryfder. Mae bron bob disgybl yn hapus ac yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn deall pwysigrwydd dilyn rheolau'r ysgol ac yn parchu ei gilydd. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi bod pobl yn gwrando arnynt yn yr ysgol.

Mae bron bob disgybl yn rheoli eu hemosiynau yn briodol. Maent yn teimlo bod oedolion yn eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n emosiynol trwy'r cyfleoedd i drafod eu teimladau, er enghraifft trwy wiriadau lles bob dydd. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob disgybl berthnasoedd gwaith cadarnhaol ag oedolion ac â'i gilydd. O ganlyniad, maent yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u dysgu ac maent yn hyderus i gyfrannu syniadau a gofyn am gymorth. Fodd bynnag, mae tueddiad i ddisgyblion orddibynnu ar gymorth oedolion sy'n llesteirio datblygiad eu medrau annibynnol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth ac yn yr awyr agored yn rhagorol. Mae ystafelloedd dosbarth yn dawel ac mae disgyblion yn ymateb yn dda i'w gilydd. Wrth symud o gwmpas yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ofalus ac yn ystyriol o bobl eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn awyddus i ymgymryd â chyfleoedd dysgu newydd ac yn dangos lefelau da o wydnwch wrth fynd ati i wneud tasgau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu gwaith a dysgu blaenorol yn hyderus. Maent yn ymateb yn dda i adborth llafar athrawon a chymorthyddion er mwyn gwella eu gwaith. Yn yr ychydig o arferion orau, mae disgyblion yn ailymweld â'u gwaith yn briodol er mwyn gwella'r cynnwys yn dilyn adborth ysgrifenedig. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn ymateb yn ddigon cyson i adborth felly nid ydynt bob amser yn deall eu camau dysgu nesaf.

Yn gynyddol, mae llawer o ddisgyblion yn dod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. Dangosant synnwyr cynyddol o empathi a thosturi tuag at bobl eraill, ac mae eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn trafod hanes Malala Yousafzai a'i hymgyrch i sicrhau bod merched yn cael hawl i addysg ym Mhacistan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o hawliau'r plant a gallant esbonio sut caiff y rhain effaith ar eu bywydau bob dydd eu hunain a bywydau pobl eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod buddion bwyta ac yfed yn iach ac yn deall yr effaith a gaiff hyn ar eu cyrff. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn esbonio'n hyderus bwysigrwydd ymarfer corff a chael digon o gwsg i fod yn iach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan y staff yn ystod amseroedd egwyl ac ar ôl ysgol. Mae'r cyfleoedd hyn yn annog disgyblion i ddatblygu gwerthfawrogiad o fyw yn iach tra byddant yn yr ysgol, ac yn eu cynorthwyo i barhau i wneud dewisiadau iach gartref. Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Mae llais y disgybl drwy'r amryw gynghorau yn weithredol yn yr ysgol. Mae disgyblion yn ymfalchïo'n fawr yn eu rolau etholedig ac yn dechrau dylanwadu ar welliannau ar draws yr ysgol, er enghraifft wrth iddynt wneud cais i gychwyn tîm pêl-droed genethod. Mae llawer yn hyderus wrth ymgymryd â'r rolau hyn ac yn esbonio'n llwyddiannus sut mae gweithgareddau yn yr ysgol yn effeithio ar y gymuned ehangach.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer dysgu sy'n adlewyrchu egwyddorion a diwylliant Cwricwlwm i Gymru i bob disgybl. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn hyrwyddo'r weledigaeth yn llwyddiannus ac mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol, sydd wedi ei wreiddio yn yr ardal leol ac yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol.

Mae gan athrawon ymagwedd fyfyriol a chydweithredol at gynllunio'r cwricwlwm, gan fireinio eu cynlluniau i ystyried y dulliau sydd fwyaf addas ar gyfer eu disgyblion. Maent yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o egwyddorion cynnydd Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant disgyblion ar draws yr ysgol ac yn llunio'r camau datblygu nesaf ar gyfer dysgwyr unigol. Mae gan athrawon a chymorthyddion berthnasoedd gwaith arbennig â disgyblion sy'n creu amgylchedd dysgu pwrpasol, tawel a chefnogol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt. Maent hefyd yn fodlon i ofyn cwestiynau yn rhwydd os oes angen cymorth â'u dysgu. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn adnabod anghenion disgyblion yn dda.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarn gan sicrhau bod bron bob disgybl yn ymgysylltu'n llawn yn y gwersi a'r profiadau dysgu. Mae gan staff ddisgwyliadau cyson uchel o ddisgyblion ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at y cynnydd cadarn mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ei wneud o'u mannau cychwyn. Mae darparu cyfleoedd i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu yn datblygu. Er hyn, ar draws yr ysgol, mae tueddiad i staff or-arwain gweithgareddau gan lesteirio creadigrwydd a gallu disgyblion i wneud dewisiadau'n annibynnol.

Nodwedd amlwg o waith yr ysgol yw'r modd mae athrawon a chymorthyddion yn annog y disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Llannerch-y-medd a Chymru. Trwy gynllunio themâu cyfoethog, mae athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarn y disgyblion o'u cymdogaeth drwy gynnig profiadau byw ac ystyrlon. Maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol a phrofiadau sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol a'i lle yn y

gymuned leol yn llwyddiannus. Er enghraifft, trefnir ystod o ymweliadau lleol a thu hwnt, fel taith i Oriel Môn er mwyn astudio gwaith yr artist Kyffin Williams.

Mae athrawon yn rhannu amcanion clir ar ddechrau gwersi a gwneir defnydd cyson o feini prawf llwyddiant. O ganlyniad, mae gan y disgyblion hyder wrth hunanwerthuso eu hymdrechion nhw a'u cyfoedion. Mae'r holl staff yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae'r staff yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gweithgareddau er mwyn cynnal ac ymestyn eu dysgu. Yn yr ychydig arfer orau, mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig syml ac effeithiol ac mae'r disgyblion yn ymateb iddo'n rheolaidd, sy'n cynnig arweiniad clir iddynt am y camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae hyn yn anghyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn ymateb yn hyderus am yr hyn sy'n dda yn eu gwaith a'r camau dysgu nesaf.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn drwyadl gan wneud defnydd pwrpasol o asesiadau amrywiol sy'n sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen i lwyddo. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ymhob agwedd o'u dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Llannerch-y-medd yn gymuned gyfeillgar, groesawgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo hapusrwydd, cwrteisi ac ymddygiad ardderchog. Mae ymdeimlad gofalgar tuag at bob disgybl. Mae staff yn creu amgylchedd dysgu cynhwysol a diogel lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n dda i hyrwyddo a datblygu lles disgyblion. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag anghenion pob disgybl. Mae trefniadau cadarn ac effeithiol i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion. Mae staff yn meithrin perthynas gadarn â disgyblion sy'n hyrwyddo agweddau buddiol at eu lles. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac amserol i ddisgyblion defnyddio'r Gornel Lles yn ddyddiol.

Mae darpariaeth hynod effeithiol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanedol (ADY). Mae gan y cydlynydd ADY brosesau trylwyr i adnabod anghenion dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad i gynllunio cynnar a medrus y ddarpariaeth, mae disgyblion yn cael cefnogaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae gan staff drefniadau bwriadus ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ADY sy'n ymwneud â'u targedau neu cynlluniau datblygu unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol gyda'u dysgu neu eu lles yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth a'r cymorthyddion, staff ysgolion eraill ac asiantaethau allanol, fel y timau cyfathrebu a rhyngweithio, i ddarparu ymyraethau effeithiol i ddysgwyr. Mae'r ysgol yn paratoi'n dda ar gyfer cynllunio a gweithredu bwriadus fel rhan o'r broses ddiwygio darpariaeth ADY.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Mae'r ysgol yn ganolbwynt ei chymuned ac yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i gynnal gweithgareddau yn yr ardal leol, er enghraifft drwy osod torch ar ran 'Plant y Fro' fel rhan o wasanaeth Sul y Cofio. Yn ogystal, maent yn uniaethu â'r byd ehangach drwy gysylltiadau amrywiol

ag ysgol ym Mhatagonia i ddwysáu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau ar draws y byd.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol, sy'n cynnwys cyfleoedd addas i gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon. Mae'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r meysydd chwarae cymunedol i drefnu a darparu ystod o weithgareddau sy'n cyfrannu'n dda at les a mwynhad disgyblion yn eu dysgu. Mae'r ardaloedd chwarae awyr agored ar yr iard yn ddeniadol ac yn hybu'r disgyblion i ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn ystod gwersi ac amseroedd egwyl yn llwyddiannus.

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi disgyblion i ddysgu am faterion sy'n ymwneud â chredoau amrywiol, yn ogystal â myfyrio ar gwestiynau sylfaenol a'u gwerthoedd eu hunain. Ar draws yr ysgol, mae staff yn cefnogi disgyblion i ddeall materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Maent hefyd yn datblygu gwerthoedd sy'n datblygu disgyblion i ddeall eu hanghenion a hawliau eu hunain a phobl eraill.

Mae staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion leisio barn er mwyn cyfrannu at eu dysgu ac at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn eu paratoi'n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi ysgrifennu at yr awdurdod lleol yn mynegi pryder am gynnydd mewn faint o sbwriel sy'n hel o gwmpas yr ysgol, a nifer y biniau sydd ar gael i helpu datrys y broblem. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi barn am eu dysgu drwy gynllunio ar gyfer themâu'r dosbarth. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn dylanwadu'n ehangach ar fywyd yr ysgol a thu hwnt. Er enghraifft, maent yn gwerthu teisennau i godi arian at elusennau lleol ac at Ymchwil Cancr.

Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol ac nid yw'r trefniadau'n peri pryder. Mae trefn ar gyfer adrodd pryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae staff yn gwneud cyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar er mwyn cynnig 'Llwybr Llwyddiant Llannerch-y-medd'. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu lles a'u medrau sylfaenol yn llwyddiannus mewn awyrgylch teuluol. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio ar draws cymuned glòs yr ysgol.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn creu awyrgylch ble mae pawb yn uchelgeisiol ac yn dyheu am y gorau. Mae'r pennaeth yn dyrannu cyfrifoldebau'n strategol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ailstrwythuro'r grwpiau cwricwlwm yn dilyn archwiliad o fedrau'r staff. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithiol. Mae gan bob aelod o staff addysgu targedau unigol sy'n cysylltu'n bwrpasol â'r blaenoriaethau gwella, ac sy'n diwallu eu hanghenion dysgu proffesiynol. O ganlyniad, mae gan bob aelod o

staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau a sut maen nhw'n cyfrannu at ddatblygiad yr ysgol.

Mae perthynas yr ysgol â'r rhieni yn gadarn ac mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn effeithiol. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn arbennig. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi medrau'r disgyblion, er enghraifft drwy rannu gwybodaeth am sut i ddefnyddio Hwb i gwblhau gwaith cartref. Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn weithgar iawn wrth gynnal digwyddiadau sy'n cefnogi'r ysgol i leihau effaith tlodi. O ganlyniad i gynnal helfa drysor, casglwyd arian i gyfrannu at gostau ymweliadau addysgol. Mae hyn yn lleihau'r baich ariannol ar deuluoedd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol sy'n cynnwys amrediad eang o randdeiliaid, fel staff, llywodraethwyr a disgyblion. Maent yn casglu tystiolaeth uniongyrchol ac maent yn dadansoddi'r dystiolaeth yn ofalus. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae arweinwyr yn adnabod blaenoriaethau addas sy'n rhoi sylw priodol i'r materion hyn. Maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddatblygu ymagwedd at Gwricwlwm i Gymru a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn rheolaidd, gan ymateb i gerrig milltir benodol a gwerthuso dylanwad gwariant.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn gefnogol i fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol. Mae adroddiadau'r pennaeth yn sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol. Mae llywodraethwyr hefyd yn casglu eu gwybodaeth eu hunain ac yn cyfrannu'n briodol at y prosesau hunanwerthuso, yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu, yn gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar waith disgyblion. O ganlyniad, maent yn cynorthwyo'r pennaeth yn dda yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol. Mae llywodraethwyr yn wybodus am flaenoriaethau cenedlaethol, fel Cwricwlwm i Gymru, diogelu ac effaith tlodi ar fywydau rhieni a disgyblion o fewn eu cymuned eu hunain. Maent yn defnyddio'u harbenigedd yn briodol i gefnogi agweddau ar waith yr ysgol. Er enghraifft, maent yn monitro'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh. Mae hyn yn cefnogi'r ysgol i gynnal safonau cadarn ym medrau'r disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgolion yn effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau addas am wariant er budd a phrofiadau'r disgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi buddsoddi'n sylweddol mewn ardaloedd allanol i'r disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfoethogi'r ddarpariaeth a'r profiadau dysgu ar draws yr ysgol. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i ddarparu sesiynau hybu lles disgyblion, sydd yn ei dro yn cael effaith fuddiol ar hyder ac ymddygiad disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   11/12/2023